Profiad Gwaith / Work Experience

Mae'n ofynnol i HOLL ddisgyblion Blwyddyn 10 gymryd rhan mewn rhaglen Profiad Gwaith. Maent yn rhydd i ddewis eu lleoliad gyda'r bwriad o gael profiad o fyd gwaith. Fodd bynnag hyd y bo'n bosibl fe'u hanogir i geisio cael profiad a fyddai o fudd iddynt yn y dyfodol, neu fyddai'n eu cynorthwyo gyda'u pynciau T.G.A.U. neu mewn maes sydd o ddiddordeb iddynt.

Archwilir y lleoliadau'n llym o safbwynt 'Iechyd a Diogelwch' a rhaid iddynt gael Yswiriant Cyfrifoldeb Cyflogwr cyfredol cyn y caiff y disgyblion fynd yno. Caiff y disgyblion eu monitro'n ofalus yn ystod yr wythnos gydag ymweliad gan eu tiwtor gan amlaf, neu alwad ffôn, yn dibynnu ar yr amgylchiad h.y. yr oriau a weithir, man y lleoliad a y y b, i wneud yn siwr fod popeth yn iawn.

Tanlinellir pwysigrwydd Iechyd a Diogelwch mewn modiwl o waith a gyflwynir i Flwyddyn 10 yn eu tiwtorial boreol cyn iddynt fynd allan ar eu hwythnos Profiad Gwaith. Hefyd cynhelir gweithdy Sgiliau Rhyngbersonol a Phrofiad Gwaith cyn i'r disgyblion fynd i'w lleoliad. Yn dilyn yr wythnos Profiad Gwaith cynhelir bore di-briff pryd y cwblheir holiadur dadansoddol. Mae asesiad gan y cyflogwr yn cael ei gynnwys yn Ffeil Cynnydd y disgybl.

Gall Profiad Gwaith fod yn gyfle amhrisiadwy i gynorthwyo disgybl sy'n ceisio penderfynu ar ei yrfa. Gall hefyd arbed rhai disgyblion rhag gwastraffu amser yn ymchwilio i yrfaoedd anaddas yn y dyfodol.

It is required that ALL Year 10 pupils take part in a Work Experience programme. They are free to choose their own placement, the main criteria being that they gain experience of the working world. However, where possible they are encouraged to seek placements in areas where they are considering future careers, which could be of help to them in their G.C.S.E. subjects, or fields in which they are interested.

All placements are stringently checked for Health and Safety and must have current Employer's Liability Insurance before the pupils are allowed to go there. Pupils are carefully monitored during the week, with a visit usually from their tutor, or a phone call, depending on the circumstances i.e. hours worked, location of placement etc, to ensure that all is well.

Health and Safety is highlighted in a module of work presented to Year 10 in their morning tutorials prior to their Work Experience week. Also an Interpersonal Skills and Work Experience workshop is held before the pupils go to their placement. Following the week's Work Experience a de-brief morning is held during which a questionnaire analysing the experience is completed. An assessment by the employer is included in the pupil's Progress File.

Work Experience can prove to be an invaluable opportunity for deciding upon possible career avenues and can even prevent pupils from wasting time investigating unsuitable careers in the future.

Ysgol Eifionydd
Porthmadog